

Gwrandawriad cyn penodi – Cadeirydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Medi 2022

1. Cyflwyniad

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (y Bwrdd Iechyd)

1. Powys yw un o siroedd mwyaf gwledig y DU. Er bod y sir yn cyfrif am tua 25 y cant o arwynebedd tir Cymru, dim ond pump y cant o'r boblogaeth sy'n byw yno. Mae'r boblogaeth ym Mhowys yn hŷn o gymharu â gweddill Cymru ac mae cyfran y bobl hŷn ar gynydd. Mae'r boblogaeth oedolion oedran gweithio yn llai o gymharu â gweddill Cymru, a rhagwelir y bydd nifer y bobl ifanc a'r oedolion oedran gweithio yn gostwng, tra bydd nifer y bobl hŷn yn cynyddu. Rhagwelir y bydd poblogaeth Powys yn gostwng wyth y cant erbyn 2039.
2. Mae rhwydwaith cryf o drefi a phentrefi bychan yn y sir lle mae'r gymuned yn weithgar iawn a'r sector gwirfoddol yn gryf. Mae diweithdra yn isel, ond mae gan Bowys economi incwm isel ac enillion isel ar gyfartaledd tra bod prisiau tai yno'n uchel o gymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru. Mae pum ardal (Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is) sydd ymhlith y 30 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Lleolir yr ardaloedd hynny o amgylch y prif drefi marchnad lle ceir poblogaeth breswyl uwch.
3. Ar y cyfan, ceir canlyniadau iechyd da yn y sir ac mae pobl yn byw'n hirach ac yn iach am fwy o flynyddoedd na'r cyfartaledd cenedlaethol, gan fwyta deiet iachach a gwneud mwy o weithgareddau corfforol egniol. Mae llai o bobl yn teimlo'n unig ac mae mwy o ymdeimlad o gymuned a boddhad o ran bywyd. Mae 83 y cant yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol, o'i gymharu â 75 y cant yng Nghymru gyfan. Fodd bynnag, er bod iechyd cyffredinol yn dda, mae yna faterion sydd wedi llywio'r strategaeth hirdymor. Mae un o bob pump o bobl yn dal i ysmegu, mae un o bob pedwar plentyn dros eu pwysau neu'n ordew



pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol ac mae chwech o bob deg oedolyn dros eu pwysau neu'n ordew. Mae anghydraddoldebau iechyd arwyddocaol ymhlith y bobl sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Powys; mae plentyn sy'n cael ei eni yn yr ardal fwyaf difreintiedig yn byw tua 10 mlynedd (bechgyn) i 14 mlynedd (merched) yn llai na phlentyn sy'n cael ei eni yn yr ardal leiaf difreintiedig.

4. Mae'r Bwrdd Iechyd yn comisiynu ac yn darparu gofal iechyd uniongyrchol. Mae'n wahanol i fyrddau iechyd eraill yng Nghymru o ran y gyfran o wasanaethau sy'n cael eu darparu i'r boblogaeth gan ddarparwyr gofal iechyd eraill. Cyllideb y Bwrdd Iechyd yw tua £300 miliwn. Mae 50 y cant yn cael ei wario ar ofal eilaidd ac arbenigol, mae 20 y cant yn cael ei wario ar ofal sylfaenol ac mae 30 y cant yn cael ei wario ar wasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol. Mae'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n uniongyrchol yn cael eu darparu drwy rwydwaith o wasanaethau cymunedol ac ysbytai cymunedol sy'n cynnwys iechyd meddwl, anabledau dysgu, gwasanaethau mamolaeth a gwasanaethau plant. Darperir gofal hefyd ym Mhowys drwy gcontractwyr gofal sylfaenol megis meddygon teulu, deintyddfeydd, fferyllwyr ac optometryddion, yn ogystal â'r trydydd sector. Darperir hefyd ar gyfer ystod gynyddol o sesiynau i gleifion allanol a arweinir gan feddygon ymgynghorol, nyrsio a therapi, theatr ddydd a diagnosteg mewn cyfleusterau cymunedol, gan sicrhau y darperir gofal yn agosach ym Mhowys ei hun ac yn agosach at gymunedau a chartrefi pobl.

5. O ran comisiynu, mae rhai nodweddion sy'n unigryw i gyd-destun Powys. Gan ei bod yn sir gwbl wledig heb unrhyw ardaloedd trefol sylweddol a dim ysbytai cyffredinol aciwt, mae'n rhaid i bobl ym Mhowys deithio y tu allan i'r sir i gael llawer o wasanaethau'r Bwrdd Iechyd, gan gynnwys gofal iechyd eilaidd ac arbenigol, addysg uwch, cyflogaeth a hamdden.

6. Mae'r bwrdd iechyd yn prynu gwasanaethau ar ran y boblogaeth gan 15 o brif sefydliadau darparu'r GIG ar draws Cymru a Lloegr. Gan Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Amwythig a Telford y comisiynir y gyfran fwyaf o'r gweithgarwch ac Ymddiriedolaeth GIG Dyffryn Gwy ar ôl hynny. Yng Nghymru, mae'r Bwrdd Iechyd yn prynu gwasanaethau gan Fyrddau Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Aneurin Bevan, Bae Abertawe a Chwm Taf Morgannwg ac eraill i raddau llai. Mae hyn yn cwmpasu pob arbenigedd, ond nid Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yw comisiynydd mwyafrif unrhyw ddarparwr aciwt.

2. Y broses gwrandawiadau cyn penodi

Y broses

7. Cytunodd Gweinidogion Cymru a Senedd Cymru i gyflwyno gwaith craffu cyn penodi gan bwyllgorau'r Senedd ar gyfer rhai penodiadau cyhoeddus penodol sydd o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd neu a gaiff effaith sylweddol ar y cyhoedd. Y nod yw gwella ymhellach y drefn o graffu ar y broses o wneud penodiadau cyhoeddus yn ogystal â thryloywder y broses honno. Yn gyffredinol, ffurf y gwaith craffu cyn penodi yw gwrandawriad cyhoeddus cyn penodi, gyda'r ymgeisydd a ffefrir. Ar gyfer penodiadau i'r rolau hyn y cytunwyd arnynt, mater i'r pwyllgor perthnasol yw penderfynu a yw'n dymuno cynnal gwrandawriad cyn penodi ai peidio.

Gwrandawriad cyn penodi

8. Ar 21 Medi 2022, cynhaliodd y Pwyllgor wrandawriad cyn penodi gyda Carl Cooper, yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rôl Cadeirydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Mae trawsgrifiad o'r cyfarfod ar gael ar [wefan y Pwyllgor](#).

9. I lywio'r gwrandawriad, rhoddodd Llywodraeth Cymru bapur priffio i ni ar y broses ("[papur briffio Llywodraeth Cymru](#)"), [ffurflen gais Carl Cooper, CV a datganiad ategol](#) a chopi o'r [pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr](#). Gofynnodd y Pwyllgor hefyd i'r ymgeisydd a ffefrir gwblhau [holiadur](#) cyn y gwrandawriad.

3. Y broses recriwtio

10. Ar 24 Mai 2022, hysbysebodd Uned Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru swydd Cadeirydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

11. Yn dilyn yr ymgyrch hysbysebu gychwynnol ym mis Mawrth/Ebrill 2022, ni chafwyd unrhyw geisiadau o'r safon ofynnol ac fe gytunwyd â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ailhysbysebu'r penodiad. Roedd asiantau chwilio gweithredol yn rhan o'r ddwy ymgyrch hysbysebu gyda'r nod o gynyddu nifer yr ymgeiswyr ac ehangu'r amrywiaeth.

12. Ar ôl cyfnod ail-hysbysebu o bedair wythnos, caeodd yr hysbyseb ar 24 Mehefin 2022 a daeth chwe chais i law. Mae data amrywiaeth sy'n ymwneud â'r ymgeiswyr i'w gweld ym [mhapur briffio Llywodraeth Cymru](#).

13. Argymhellodd y Panel Asesu Cyngorol y dylid cyfweld â phedwar o'r chwe ymgeisydd. Gwahoddwyd y pedwar ymgeisydd i sesiwn rhanddeiliaid ar-lein ar 18 Gorffennaf 2022. Roedd

hyn yn ei gwneud yn ofynnol iddynt arwain trafodaeth bwnc yn ymwneud â sut y tynnwyd sylw at effaith anghydraddoldebau iechyd ym Mhowys yn sgil pandemig COVID-19, a sut y byddent fel Cadeirydd yn mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau iechyd o ran datblygu strategaeth a darparu gwasanaethau. Gwahoddwyd y pedwar ymgeisydd hefyd i gyfweliad ffurfiol â'r Panel Asesu Cyngorol ar 19 Gorffennaf 2022.

14. Cytunodd y panel rhanddeiliaid a'r Panel Asesu Cyngorol bod tri ymgeisydd yn gymwys i gael eu penodi. Cytunodd y Gweinidog i'r argymhellion gan ddewis Carl Cooper fel yr ymgeisydd a ffefrir ar 17 Awst 2022.

Manyleb y swydd a'r person

15. Amlinellodd Llywodraeth Cymru rôl y Cadeirydd yn y pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr. Roedd hyn yn cynnwys hysbysiad y gallai penodiad i rôl y Cadeirydd, fod yn amodol ar wrandawriad cyn penodi, yn ôl disgrisiwn y Pwyllgor.

16. Bydd y Cadeirydd yn atebol i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am berfformiad y Bwrdd a'i lywodraethiant effeithiol, am gynnal gwerthoedd y GIG, ac am ennyn hyder y cyhoedd a phartneriaid ledled ardal y bwrdd iechyd.

17. At hynny, bydd y Cadeirydd yn gyfrifol am:

- Arwain y Bwrdd wrth iddo ddatblygu gweledigaeth strategol ar gyfer gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd yn y dyfodol, gan wireddu ac adeiladu ar botensial a sgiliau cynhenid o fewn y sefydliad i ddatblygu gwasanaeth arloesol sy'n dangos esiampl, gyda'r nod o wella llesiant a chanlyniadau'r boblogaeth;
- Rhoi arweiniad effeithiol a gweladwy ar draws holl gyfrifoldebau'r Bwrdd, yn fewnol drwy'r bwrdd, ac yn allanol drwy gysylltiadau ag ystod eang o randdeiliaid a phartneriaid yn y gymuned, yr awdurdod lleol, y bwrdd iechyd ac yn genedlaethol;
- Sicrhau bod y bwrdd yn cyflawni'n effeithiol nodau strategol a gweithredol y Bwrdd Iechyd drwy gyflawni nodau strategol a polisiau, a sicrhau llywodraethiant da;
- Cynnal yr ansawdd uchaf o ran safonau ac arferion iechyd cyhoeddus, a gwella ansawdd a diogelwch gofal iechyd;
- Bod yn atebol am berfformiad y Bwrdd ar lefel gymunedol, yr awdurdod lleol, y Bwrdd ac yn genedlaethol, drwy gytuno ar Gynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd a chynllun cyflawni blynyddol, a'r gwerthusiad blynyddol o'r cyraeddiadau

yn erbyn y cynllun yn gyhoeddus gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;

- Dwyn y Prif Weithredwr i gyfrif am bob un o'u cyfrifoldebau;
- Gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid, yn arbennig contractwyr gofal sylfaenol a chyrrff eraill y GIG, prifysgolion, awdurdodau lleol, y trydydd sector a phartneriaid cymdeithasol, i sicrhau bod gwasanaethau diogel ac effeithiol yn cael eu cynllunio a'u darparu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gyda'r nod o wella canlyniadau i'r boblogaeth;
- Rhoi sicrwydd a threfn lywodraethu ar gyfer gofalu'n briodol am arian cyhoeddus ac adnoddau eraill y mae'r Bwrdd yn atebol amdanynt;
- Rhoi sicrwydd bod y bwrdd yn cael ei lywodraethu'n effeithiol, yn unol â'r fframwaith a'r safonau a bennwyd ar gyfer y GIG yng Nghymru, gyda phwyslais arbennig ar sicrhau trefn agored a thryloyw;
- Mabwysiadu rôl fel llysgennad allanol, gan gynrychioli'r bwrdd yn gyhoeddus ac ennyn hyder y cyhoedd;
- Gweithredu fel Ymddiriedolwr Corfforaethol Elusen y Bwrdd Iechyd.

4. Yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru

Cefndir

18. Ar hyn o bryd, mae Carl Cooper, yr ymgeisydd a ffefrir gan Llywodraeth Cymru, yn Brif Swyddog Gweithredol Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO), yn Gadeirydd ac aelod o Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Powys, yn Aelod o Fwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru, ac yn aelod o Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector.

19. Yn yr holiadur cyn penodi, mae'n dweud:

"I have served on and chaired a number of committees, boards and partnerships in Powys, the majority of which have related to health, care and wellbeing. I have experienced instances of services being developed and/or strengthened that have had a fabulous and beneficial impact upon the lives of people, households and communities. The opposite has also been the case, where services have occasionally not been adequately coordinated or sufficiently reliable and people have not received

the support they deserve and should be able to expect. I am both motivated and committed to building on the good and positive experiences in order to ensure that Powys' citizens receive the best possible care and support. I would enthusiastically welcome the opportunity to continue to serve the people of Powys in this important role."

Ein barn ni

20. Yn unol â'r canllawiau ar wrandawiadau cyn penodi y cytunwyd arnynt rhwng Llywodraeth Cymru a'r Senedd, ein rôl ni yw nodi ein barn ar addasrwydd yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru.

21. Yn ystod y gwrandawriad cyn penodi, cawsom drafodaeth eang gyda Carl Cooper, yr ymgeisydd a ffefrir. Roedd hyn yn cwmpasu ei brofiad o weithio mewn sefydliadau eraill, gan gynnwys rolau yn y sectorau gwirfoddol, prifysgol a chyhoeddus. Buom yn siarad am y modd y gall llywodraethu, rheoli a chyflawni gweithredol effeithiol da drawsnewid gwasanaethau, a dywedodd Mr Cooper mai un o'i flaenoriaethau cyntaf, pe bai'n cael ei benodi, fyddai sicrhau bod atebolrwydd a llywodraethiant sefydliad yn effeithiol ac yn gweithio fel y dylai.

22. Trafodwyd tryloywder a datblygu diwylliant o fod yn agored ac yn ddidwyll. Soniodd Mr Cooper am bwysigrwydd gweithlu cynaliadwy, a'r angen i ofalu am staff a buddsoddi ynddynt. Fe wnaeth gydnabod hefyd ei bod yn un o gyfrifoldebau pwysig y bwrdd i sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau priodol ar waith i ddiogelu llesiant y staff, gan gynnwys o ran cam-drin domestig. Yn olaf, buom yn siarad am gydraddoldeb ac amrywiaeth, a chydabu Mr Cooper bwysigrwydd cyfathrebu a sicrhau bod gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd yn adlewyrchu amrywiaeth ieithyddol ei phoblogaeth, y tu hwnt i Gymraeg a Saesneg.

Casgliad 1. Ar sail ei berfformiad a'i ymatebion i gwestiynau yn y gwrandawriad cyn penodi, ni wyddom am unrhyw reswm pam na ddylai Carl Cooper, yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru, gael ei benodi i swydd Cadeirydd Bwrdd Addysgu Iechyd Powys.

23. Pe bai Carl Cooper yn cael ei benodi, dymunwn yn dda iddo i'r dyfodol ac edrychwn ymlaen at graffu'n adeiladol ar ei waith yn ei rôl fel Cadeirydd y Bwrdd Iechyd yn ystod cyfnod y Senedd hon.